# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC: Tom Jones, 22, Endsleigh Road, Hen Golwyn. LL29 9DT Ffôn: 01492 515999 Sym: 07774 833523
e-bost: clerc@betwsdallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YM MHAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS YN RHOS, AM 7.30y.h. NOS LUN, 4ydd o FEDI, 2023.**

## 1. CROESO
Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd John EVANS pawb i'r cyfarfod.

## 2. YN BRESENNOL
Y Cynghorwyr Gwenda DAVIES; Irwedd GRIFFITHS; Glenna HUMPHREY; Bryn JONES; D Gwyn JONES; Gethin OWEN; Hefin WILLIAMS; Goronwy R. WILLIAMS; Cynghorwr Sir Ifor G WILLIAMS

## 3. YMDDIHEURIADAU
Y Cynghorydd Gwenda DAVIES a'r Cynghorydd John D ROBERTS – yn adfer yn dilyn triniaeth llawfeddygol.

## 4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD wedi dweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a. Roedd dau ddatganiad o ddiddordeb gan: Y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS a'r Cynghorydd Goronwy R WILLIAMS.

## 5. MUNUDAU

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3ydd o Orffennaf, 2023. (Cynnig y Cynghorydd Glenna HUMPHREY ac eilwyd gan y Cynghorydd Gwyn D JONES).

## 6. MATERION YN CODI
Doedd dim mater yn codi.

## 7. CYLLID
Cafwyd Adroddiadau Misol am y cyfnod dod i ben 20fed o Orffennaf 2023. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

| | | |
|---|---|---|
| (1) | Cyfrif Cymunedol | = £7,321.13 (Dwyn Ymlaen) |
| | Arian i Mewn | = £0.00 |
| | Arian Allan | = £5.40 (Costau Banc - DR) |

= £405.39 (Cyflog y Clerc – SO)

= £101.40 (Taliad i'r HMRC – SO)
= £55.80 (Aston Hughes-Gwasanaethau Cyflogi-TAL)

| | |
|---|---|
| Heb ei Cyflwyno | = Dim |
| Cyfrif Cymunedol | = £6,753.14 (Cludwyd Ymlaen) |

| | | |
|---|---|---|
| (2) | Cyfrif Busnes | = £5,591.15 (Dwyn Ymlaen) |
| | Arian Allan | = £0.00 |
| | Arian i Mewn | = £0.00 |
| | Cyfrif Busnes | = £5,591.15 (Cludwyd Ymlaen) |
| | Cyfanswm | = £12,344.29 |

Cafwyd Adroddiadau Misol am y cyfnod dod i ben 20fed o Awst 2023. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

| | | |
|---|---|---|
| (3) | Cyfrif Cymunedol | = £6,753.14 (Dwyn Ymlaen) |
| | Arian i Mewn | = £3000.00 (CBSC Praesept) |
| | Arian Allan | = £5.00 (Costau Banc - DR) |
| | | = £405.39 (Cyflog y Clerc – SO) |
| | | = £101.40 (Taliad i'r HMRC – SO) |
| | | = £200.00 (Cymdeithas Hanesyddol Betws a Llanelian-Grant-TAL) |
| | | = £180.00 (Canolfan Gymdeithasol Llanelian – Rhent- TAL) |
| | | = £177.00 (Un Llais Cymru-Tanysgrifiad Blynyddol-TAL) |
| | Heb ei Cyflwyno | = Dim |
| | Cyfrif Cymunedol | = £8,684.35 (Cludwyd Ymlaen) |

| | | |
|---|---|---|
| (4) | Cyfrif Busnes | = £5,591.15 (Dwyn Ymlaen) |
| | Arian Allan | = £0.00 |
| | Arian i Mewn | = £0.00 |
| | Cyfrif Busnes | = £5,591.15 (Cludwyd Ymlaen) |
| | Cyfanswm | = £14,275.50 |

Cytunodd pawb a'r adroddiadau yma.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol mae'n rhaid yn awr gael cytundeb y Cyngor i dalu pob anfoneb Mae'r anfonebau a restrir isod angen ei talu:
£400.00 – Cymdeitha Gymunedol Llanelian yn Rhos – Grant er lles yr henoed
£100.00 – Hosbis Plant Ty Gobaith – Grant
£500.00 – Cymdeithas Chwaraeon ac Adloniant Betws yn Rhos – Rhan o Grant Yr Hwb
Cytunodd pawb i'r Clerc dalu yr anfonebau yma.

**8. GOHEBIAETH**

**i. Derbynwyd**

a. Llythyr gan Darren Millar AS yn gofyn rhoi ei bosteri ar ein byrdau gwybodaeth.

b. Llythyr gan CBSC is esbonio yr angen i wneud y gwahanol waith ffordd yn yr ardal. Roedd y gwaith hwn yn ran o gytundeb Gwaith blaenorol.

c. Llythyr gan 'Creative Play' yn argymell ei gwasanaethau.

d. Hysbysiad o gyfarfod ar lein Teams oddi wrth Forwn Cynghorau Tref a Chymunedau. Am fod y Clerc dramor ar y dyddiad roedd croeso i unrhyw un o'r Cynghorwyr fod yn bresennol yn y cyfarfod.

e. Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru mlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc.

**ii. Anfonwyd**

a. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
b. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

## 9. GRANTIAU

**i. Ceisiadau i'r Cyngor**

a. Dim ceisiadau ychwanegol ar y funud..

**ii. Ceisiadau gan y Cyngor**

a. Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

## 10. CYNLLUNIO - http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer

a. Cyfeirnod: 0/50531 Ymgeisydd: Gareth Williams
Cynllun: Estyn y sied amaethyddol i ddarparu storfa slyri fel y nodir yn natganiad o anghenion y cleient.
Safle: Bethgeth Cill Llidiart Road Betws Yn Rhos LL22 8AG
Mae Adran Gynllunio CBSC yn dweud fod y newidadau angenrheidiol wedi cael ei gwneud i'r cais hwn.

b. Rhif y Cais: 0/50914 Natur y Cais: Llawn
Derbyniwyd : 29/06/2023 Cofrestrwyd: 07/07/2023
Natur y Datblygiad: Aelwyd
Dosbarth Etholiadol: Betws Yn Rhos Cyngor
Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council
Lleoliad: Alltwen, Dolwen Road Llysfaen LL29 8AQ
Cais: Estyniad unllawr i'r drychiad gorllewinol ac estyniad deulawr i'r drychiad dwyreiniol
Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais yma.

c. Rhif y Cais: 0/50886 Natur y Cais: Llawn
Derbyniwyd : 21/06/2023 Cofrestrwyd: 04/07/2023
Natur y Datblygiad: Aelwyd
Dosbarth Etholiadol: Betws Yn Rhos
Cyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council
Lleoliad: Coach House Cill Llidiart Road Betws Yn Rhos LL22 8AR
Cais: Adeiladu porth ceir to fflat dros ardal barcio llawr caled bresennol

Doedd dim gwrthwynebiad i’r cais yma.

ch. Rhif y Cais: 0/50943 Natur y Cais:Cymeradwyaeth Adeilad Amaethyddol
Derbyniwyd : 13/07/2023 Cofrestrwyd: 19/07/2023
Natur y Datblygiad: Nid Preswyl
Dosbarth Etholiadol: Betws Yn Rhos
Cyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council
Lleoliad: Ty Newydd Cilgwyn Road Llanelian Yn Rhos Colwyn Bay Conwy LL29 8YR
Cais: Codi Adeilad Amaethyddol (Cymeradwyaeth Amaethyddol Ymlaen Llaw)
Doedd dim gwrthwynebiad i’r cais yma.

d. Rhif y Cais: 0/51026
Natur y Cais: Diwygiad nad yw’n sylweddol
Derbyniwyd : 21/08/2023 Cofrestrwyd: 22/08/2023
Natur y Datblygiad: Aelwyd
Dosbarth Etholiadol: Betws Yn Rhos Cyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council
Lleoliad: Ty Newydd Cilgwyn Road Llanelian Yn Rhos Colwyn Bay LL29 8YR
Newid ansylweddol i ganiatâd cynllunio 0/49463 (ailadeiladu adeilad allanol anniogel fel bod yr amlen thermol yn cyrraedd y safonau cyfredol. Yn yr adeilad hwn bydd cegin fwy, swyddfa gartref ychwanegol, ystafell iwtiliti, garej ac ystafell wely, ystafell ymolchi a lolfa ar y llawr cyntaf) er mwyn caniatáu newidiadau i'r ffenestri ar y llawr gwaelod a darparu drws patio i mewn i'r gegin yn y cefn. Darparu ffenestr i'r ystafell iwtiliti a'r toiled yn y cefn. Codi simnai ar y talcen a darparu storfa o dan y balconi yn y cefn.
Doedd dim gwrthwynebiad i’r cais yma.

ad. Rhif y Cais: 0/50964 Natur y Cais: Llawn
Derbyniwyd : 27/07/2023 Cofrestrwyd: 28/07/2023
Natur y Datblygiad: Datblygiad Newydd
Dosbarth Etholiadol: Betws Yn Rhos
Cyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos Community Council
Lleoliad: Nant Y Cochel Bryn Dansi Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NS
bwyd anifeiliaid.
Doedd dim gwrthwynebiad i’r cais yma.

e. Cyfeirnod: 0/51015 Ymgeisydd: Mr Rob Hughes
Cynllun: Addasiadau i storfa a ddefnyddir mewn cysylltiad â garej, addasiadau'n cynnwys codi lefel y to a dyluniad
Safle: Bryn Rhos Garage Ffordd Y Mynydd Betws Yn Rhos LL22 8AW
Angen gofyn i’r Adran Gynllunio os ydiuchder y to yn cydfynd gyda gofynnion y rheolau perthnasol.

f. Cyfeirnod: 0/51018 Ymgeisydd: Ms Delyth Wanklyn
Cynllun: Codi adeilad amaethyddol i ddibenion lles anifeiliaid
Safle: Cae rhif 5446 Abergele Road Betws Yn Rhos Abergele Conwy LL22 8AL
Roedd y cais yma wedi ei dynnu yn ol.

g. Cyfeirnod: 0/51025 Ymgeisydd: Springtime Lodges Ltd
Cynllun: Newid tri chaban gwyliau presennol am rai newydd a chynnig dau gaban ychwanegol (cyfanswm o bum caban gwyliau), gan gynnwys tirlunio cysylltiedig a maes parcio

Safle: Alpine Lodge Rhyd Y Foel Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8EA
Roedd pryderon oddeuty mynediad i'r safle hwn ynglun a gweledεdd ac hefyd safle parcio digonol. Llythyr iw anfon i'r Cyngor Sir i sicrhau fod yr itemau hyn yn cydfynd a'r rheolau.

**11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**

Mae adroddiad yr Archwilaid Mewnol a'r newidadau angenrheidiol wedi ei gyrru I Archwiliad Cymru a disgwylir ymateb mewn chydig o wythnosau.

**12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

a. Mae'r gwaith o baratoi Cyllid Flynyddol CBSC yn nawr wedi ei ddechrau. C
b. Mae pob ysgol yn yr ardal yn cael archwiliad ynglun a phresenoldeb asbestos.

**13. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL**

a. Arwydd ffordd ar gornel Capel Bach Sion – Mae arwydd Newydd wedi ei osod yn y man yma.

b. Cyfarpar chwaraeon i blant iau ar gae chwarae Betws yn Rhos – Mae amcan bris wedi ei dderbyn er mwyn cael syniad o'r costau ac yn awr mae camau yn cael ei cymeryd i chwilio am grantiau. Yn anffodus nid oes ddim llawer o ymateb wedi bod i'r holiadur gymunedol a gafodd ei ddosbarthu i'r gymuned drwy'r ysgol, meithrinfa, y we a'r byrddau gwybodaeth cyn gwyliau'r haf.

c. Gordyfiant ar lonydd gwyrdd a llwybrau lleol – hyd yn hyn cafwyd dim ymateb am adborth ar gyflwr y llwybrau  na dim cynnigion am y Llwybyr Natur.

ch. Yr Hwb - Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

d. Diffibrilwyr. – Mae archwiliad ar safleoedd a defnydd diffibrilwyr lleol yn cymeryd lle ar y funud a mae'r Cyngor Cymuned yn nawr wedi cymeryd drosodd y gofal am y pump offer yma. Bydd y Cyngor yn nawr yn gwneud yn siwr fod yr offer o hyd yn barod i gael ei ddefnyddio. Byddant hefyd yn edrych ar gael diffbrilwr newydd yn ardal Dawn.

e. Mae'r meinciau yng nghanol Betws yn Rhos yn nawr wedi cael ei ail beintio.

f. Mae angen cynnal a chadw y gwlau blodau newydd wrth fynedfa y caeau chwarae yn Betws yn Rhos.

g. Bydd angen trafod ymhellach ynglun a'r toiledau di-ddefnydd yn Betws yn Rhos. Mae'r Cyngor Sir yn edrych i mewn i'r adeiladau gwag a didefnydd sydd ar ei rhestr. Mae angen trafod mwy am rhywle arall i adeiladu toiledau cyhoeddus yn y pentref.

h. Mae'r coed ar hyd ochor y ffordd rhwng Barron Hill a Trofarth yn nawr wedi ei tocio.

**14. FFERM WYNT ALLTRAETH AWEL Y MOR/GWYNT Y MOR/MONA**

Mae gwybodaeth yn dod allan yn am y ffermydd gwynt uchod o bryd iw gilydd a bydd y Cyngor yn cadw cysylltiad a hwy ac ar unrhyw beth fyddai yn ymyryd a'r ardal ac hefyd unrhyw fanteision fydd ar gael i'r ardal yn sgil y projectau hyn.
Gweler y linciau yma am wybodaeth i'r Ffermydd gwynt Alltraeth**:**
Overview
About us About the Project What the Project will look like Processes and Next Steps
Our work so far Interactions with other marine users
Information Hub Visualisations of the windfarm Interactive map.

Cawn dynu yr item yma i ffwrdd o’r Agenda nes bydd unrhyw beth o ddiddordeb yn dod i fyny.

**15. YMGYRCH LEOL I REOLI FFERMYDD GWYNT**

Mae’r pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o’r Cyngor. Mae llythyr yn nawr wedi ei dderbyn gan gwmni Bute Energy sydd yn dweud na fyddant yn mynd ymlaen gyda cais cynllunio a’i bod yn tynnu’n ol o’r broject Parc Ynni Moelfre. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais tebyg a ddaw i fyny. Os bydd unrhyw gynllun tebyg yn dod i’r fei yn y dyfodol bydd y Cyngor yn ysgrifennu ar unwaith ’r CJC (Combined Joint Council) i gael manylion.

**16. LLWYBR NATUR**

Cynigwyd edrych ar yr hen ffordd porthmon ac hefyd yr hen ffordd rufeinig fel posibilrwydd o wneud llwybyr natur yn y fro. Mae angen cael cymorth gan rhywun sydd yn adnabod y llwybrau cyhoeddus lleol ac hefyd yn gwybod ar pa fath o fywyd natur a ddisgwylir iw weld ar hyd y llwybrau. Cynigwyd hysbysu ar y bordiau gwybodaeth, ar daflen we yr ardal ac hefyd gyda’r gymdeithas gerdded yn Y Gadlas. Does dim ymateb wedi bod i’r syniad yma hyd yn hyn. .

**17. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS**

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen. Mae’r cynlluniau yn symud ymlaen yn gyflym ar y funudac edrychwn ymlaen i weld camau positif yn cymeryd lle dros y misoedd nesaf. Mae cais am ddyfynbris newydd wedi ei wneud. Mae ail gais am £60,000 wedi ei wneud. Doedd dim mwy o ddiddordeb yn ymddangos i brynu yr hen adeilad a’i symud i ffwrdd. Bydd yr adeilad presennol yn cael ei ddymchwel yn y dyfodol agaos. Bydd cyfarfodydd y Cyngor yn cael ei cynnal ym Mhafiliwn Chwaraeon Betws yn Rhos o hyn ymlaen nes bod yr adeilad newydd yn Llanelian wedi ei orffen.

**18. Y GADLAS**

Bydd dymuniadaugorau I’n cyfaill y Cynghorydd John D ROBERTS yn cael ei gynnwys yn y rhifyn nesaf o’r Gadlas.

**19. UNRHYW FATER ARALL**

a. Bu i un o frodorion Betws yn Rhos, sef y Doctor Owen WILLIAMS ei goroni fel ennillydd Eisteddfod yr Urdd 2023. Penderfynwyd gael plac wedi ei gwneud a’i roi ar wal y Ganolfan Chwaraeon neu y Neuadd Bentref yn Betws yn Rhos.

b. Cafwyd cwynion am led y rhwystr (barrier) ar ffin y llwybyr cyhoeddus a’r ffordd fawr yng nghanol pentref Betws yn Rhos. Mae yn rhy gul i gadair olwyn ac hefyd yn drafferthus i rhywun gyda cadair wthio. Y clerc i yrru ebost i Adran AFFCH y Cyngor Sir i weld os oes modd ei newid. Rydym yn dal i ddisgwyl ymateb gan y Cyngor Sir.

c. Mae cais wedi ei wneud I ail osod melin wynt yn Pen y Bryn. Er fod hyn yn ardal Cyngor Bro Llangernyw mae yn agos iawn I ffin ein hardal ni ac yn debygol o ymharu ar breswylwyr ein bro. Llythyr iw yrru I’r adran gynllunio I ofyn pam na chawsom ni wybod am y cais hwn.

ch. Roedd cwynion wedi ei cael am barcio amhriodol ym mhentref Llanelian. Gobeithir ddatrys y broblem drwy ddynesiad leol.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 10.05y.h.

CADEIRYDD: …………………………… John EVANS

CLERK: …………………………… Tom Jones DYDDIAD: 16eg Hydref 2023